Lesley Griffiths AC / AM
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Minister for Communities and Tackling Poverty

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P-LG-1366-16

Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol

17 Mawrth 2016

Annwyl Cydweithiwr

Fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am gydraddoldeb, rwyf am eich atgoffa o'ch dyletswyddau o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yng nghyflogau menywod a dynion yng Nghymru, ac rwyf am ddiolch ichi am barhau i roi eich cymorth.

Bellach, mae gan bob Awdurdod Lleol yng Nghymru drefniadau cyflog statws sengl ar waith ar gyfer menywod a dynion, sy'n datrys hen broblemau o ran ôl-daliadau iawndal i'r menywod perthnasol.

Mae bylchau mewn cyflogau yn hen gwestiwn ac yn un cymhleth. Yng Nghymru, rydym wedi gwneud cynnydd mawr ac rydym yn parhau i arwain y ffordd. Cyflwynwyd ein dyletswydd effeithiol ar Gydraddoldeb o fewn y Sector Cyhoeddus (dyletswydd cyflog cyfartal) sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus sy'n cyflogi mwy na 150 o bobl fynd i'r afael ag unrhyw wahaniaethau mewn cyflog a chyflogaeth, o safbwynt pob nodwedd warchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Fel rhan o dîm Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi (WAVE), mae Prifysgol Caerdydd wedi datblygu dull o Ddadansoddi Cyflogaeth a Chyflog Dynion a Menywod (GEPA) er mwyn i gyflogwyr allu eu hasesu eu hunain yn erbyn y ddyletswydd cyflog cyfartal ac er mwyn torri ar batrymau cyflogaeth arferol ymhlith menywod a dynion. Ar hyn o bryd, mae Prifysgol Caerdydd yn treialu'r dull ymhlith grŵp bach o gyflogwyr. Unwaith bydd y prawf wedi'i gwblhau, caiff y dull ei gynnig i bob cyflogwr fel y gallant chwilio am anghysonderau o fewn eu gweithlu eu hunain o ran cyflog a chyflogaeth menywod a dynion.

Hoffwn ddiolch yn arbennig i'r Awdurdod Lleol yng Nghymru a gymerodd ran yn Rhaglen WAVE, ac a oedd yn un o dair astudiaeth achos o gyflogwyr. Ym mis Rhagfyr 2015, ysgrifennodd Lisa James atoch, sef Dirprwy Gyfarwyddwr Democratiaeth Llywodraeth Leol yn Llywodraeth Cymru, yn tynnu sylw at yr adroddiad ar yr astudiaethau achos a gwaith rhaglen WAVE.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Lesley.Griffiths@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'n hollbwysig mynd i'r afael â'r bwlch yng nghyflog menywod a dynion er mwyn creu cymdeithas lle maen nhw'n gyfartal. Unwaith y bydd dull GEPA ar gael, rwyf am eich annog i fanteisio arno er mwyn asesu eich hunain yn erbyn y ddyletswydd cyflog cyfartal, ac i'ch helpu i fynd i'r afael â chwestiwn patrymau gwaith traddodiadol menywod a dynion.

Yn gywir

**Lesley Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Minister for Communities and Tackling Poverty